COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL GYNHALIWYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB YMLAEN DYDD LLUN, 29 MEHEFIN 2026 YN 10:00

Presennol

Cynghorydd A Ulberini-Williams – Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| JPD Blundell | HJ David | E D Winstanley |

Presennol o bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| F D Bletsoe | N Clarke | H Griffiths | S J Griffiths |
| M L Hughes | RL Penhale-Thomas | T Thomas | AJ Williams |
| MJ Williams | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb
J Llewellyn-Hopkins

Gwahoddedigion

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd John Spanswick | Arweinydd |
| Y Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd / Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| Y Cynghorydd Hywel Williams | Aelod y Cabinet dros Gyllid a Thrawsnewid |
| Y Cynghorydd Martyn Jones | Aelod y Cabinet dros Addysg a Phobl Ifanc |
| Y Cynghorydd Eugene Caparros | Aelod y Cabinet dros Gymunedau a'r Amgylchedd (Rhannu Swydd) |
| Y Cynghorydd Melanie Evans | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol |
| Y Cynghorydd Colin Davies | Aelod y Cabinet dros Adfywio a Thai |
| | |
| Jake Morgan | Prif Weithredwr |
| Carys Lord | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoliadol ac Etholiadol |

**This document is available in English / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

| | |
|---|---|
| Sophie Moore | Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoliadol ac Etholiadol |
| Ady Heyhoe | Cydlynydd Datblygu Cymunedol |
| Martin Morgans | Pennaeth Gwasanaeth - Parth Cyhoeddus |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Jessica McLellan | Swyddog Craffu |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |

Datganiadau o Fuddiannau

Y Cynghorydd F D Bletsoe – Eitem 4 – Personol - Llywodraethwr mewn Ysgol Anghenion Addysgol Arbennig

**193. Cymeradwyaeth Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol dyddiedig 16 Mawrth 2026 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Mehefin 2026 |

**194. Alldro Cyllideb Refeniw 2025-2026**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyried yr adroddiad a'i drafod yn fanwl gydag aelodau'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol a'r ceisiadau am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Argymhellion:**<br><br>1. Trafododd yr Aelodau ysgolion sy'n rhagweld cyllidebau diffyg a chynlluniau adfer diffyg ysgolion unigol, gan fynegi pryder ynghylch mynd i'r afael â'r diffygion yn unigol ac **argymell** bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i reoli ac ymdrin â'r diffygion fel dyled sengl a sefydlu tasglu neu brosiect i'w glirio. |

| | |
|---|---|
| | 2. Cynghorwyd y Pwyllgor am y rhyng-gysylltiad rhwng holl gyllidebau Cyfarwyddiaeth y Cyngor ac **argymhellwyd** bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ychwanegu adran at adroddiadau cyllideb yn y dyfodol i gynnwys trosolwg cyd-destunol y Cyngor cyfan cyn manylu ar sefyllfa Cyfarwyddiaethau unigol.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol y Gofynnwyd Amdani:**<br><br>1. **Gofynnodd** yr aelodau am ddadansoddiad o'r gwerth ar gyfer cyllideb ddiffyg neu warged amcanestynol pob ysgol yn ddienw ac am ystyried cynnwys yr wybodaeth hon mewn adroddiadau Cyllideb yn y dyfodol.<br><br>2. Cynghorwyd y Pwyllgor bod Cyfarwyddiaeth y Pwyllgorau yn gweithredu System Rheoli Gwaith Integredig newydd a **gofynnwyd** bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau, yr Amgylchedd a Thai yn ystyried gofyn am adroddiad ar y system newydd.<br><br>3. Trafododd y Pwyllgor yr adolygiad parhaus o Strategaeth Mynwentydd y Cyngor a **gofynnodd** am roi ystyriaeth i archwilio:<br><br>a. p’un a ddylai mynwentydd gael eu hystyried gan Gyd-bwyllgor sy'n adeiladu ar lwyddiant Amlosgfa Llangrallo; a<br>b. chladdedigaethau amgen fel naturiol a hydro o ystyried bod lle mewn mynwentydd yn gyfyngedig.<br><br>4. Trafododd y Pwyllgor roi'r gorau i Wasanaeth Rheoli Plâu y Cyngor a **gofynnodd** am wybodaeth am nifer y cwynion ynghylch plâu ers mis Hydref 2025, wedi’i nodi fesul Ward os yw'n bosibl.<br><br>5. Trafododd y Pwyllgor y diffyg yng nghyfraniadau cymhorthdal yr Adran Gwaith a Phensiynau tuag at daliadau budd-dal tai a **gofynnodd** am fwy o wybodaeth am nifer yr achosion a gefnogwyd, manylion ac effaith y costau hynny a nifer unrhyw achosion etifeddiaeth a allai fod yn cael effaith.<br><br>6. Trafododd y Pwyllgor y cyllid grant a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth i gynorthwyo ffoaduriaid a'r rhai sy'n ceisio lloches a **gofynnwyd am**:<br><br>a. lefel y grantiau a dderbyniwyd yn y blynyddoedd blaenorol, a'r lefel y disgwylir iddi barhau yn y blynyddoedd i ddod;<br>b. diweddariad ar y canlyniadau a gyflawnwyd o'r cyllid grant a dderbyniwyd a'r niferoedd sy'n |

| | |
|---|---|
| | cael eu cefnogi gan yr Awdurdod, wedi'u nodi fesul Ward os yw'n bosibl; a<br>c. briffio pob Aelod ynglŷn â'r gefnogaeth a gynigir gan y Gwasanaeth. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Mehefin 2026 |

## 195. Llinell Sylfaen Oed-gyfeillgar

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelodau Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol:<br><br>9. Mae'r Pwyllgor **yn argymell** bod y cyfeiriad at waith sy'n cael ei wneud gyda'r canlynol yn cael ei gynnwys yn Asesiad Sylfaen Pen-y-bont ar Ogwr Oed-Gyfeillgar:<br><br>a. Trafnidiaeth Cymru; a<br>b. Sefydliadau ffydd gan gynnwys Eglwysi, Mosg a Theml Hindŵaidd. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Mehefin 2026 |

## 196. Digonolrwydd Chwarae

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelodau Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol:<br><br>10. **Argymhellodd** y Pwyllgor roi ystyriaeth i gyfeirio rhieni a gofalwyr i gyfleoedd chwarae yn eu hardaloedd lleol yn well, gan gynnwys gwell cyfathrebu trwy wefan y Cyngor a'r cyfryngau cymdeithasol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Mehefin 2026 |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

**197. Gweithgor Craffu ar y Gyllideb**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Ar ôl ystyried yr adroddiad, nododd y Pwyllgor y Cylch Gorchwyl yn Atodiad 1, cytunodd i'r newid arfaethedig i broses y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb yn Atodiad 2 a Strwythur Diwygiedig Arfaethedig y Gweithgor ac amlinelliad Drafft o amserlen o gyfarfodydd yn Atodiad 3. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Mehefin 2026 |

198. **Enwebiadau Cydbywllor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod y Pwyllgor yn enwebu'r Aelodau canlynol i Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg:<br><br>• Y Cynghorwyr Huw David, Simon Griffiths a Elaine Winstanley (enwebiadau'r grŵp Llafur);<br>• Y Cynghorydd Tim Thomas (enwebiad gan Grŵp Annibynnol Sir Pen-y-bont ar Ogwr); a<br>• Y Cynghorydd Ross Penhale-Thomas (enwebiad gan Grŵp y Gynghrair Ddemocrataidd). |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Mehefin 2026 |

**199. Adroddiad Enwebu Hyrwyddwr Rhianta Corfforaethol**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Enwebu'r Cynghorydd Tim Thomas i gynrychioli'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol fel un wedi ei wahodd i gyfarfodydd Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Mehefin 2026 |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

## 200. Diweddariad y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyodd y Pwyllgor ei Flaenraglen Waith ddrafft yn Atodiad A yn amodol ar yr ychwanegiad canlynol, gan nodi'r Taflenni Gweithredu Monitro Argymhellion i dracio ymatebion i Argymhellion y Pwyllgor a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol yn Atodiad B a nododd y Blaenraglenni Gwaith ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu eraill yn Atodiadau C, D ac E:<br><br>a. Ymateb y Cyngor i ddigwyddiadau mawr i gynnwys sut mae gwybodaeth yn cael ei chyfathrebu i Aelodau a thrigolion; a<br>b. Diweddariad chwarterol ar gynnydd agenda Trawsnewid y Cyngor sy'n dechrau ym mis Hydref 2026. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Mehefin 2026 |

## 201. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Mehefin 2026 |

Er mwyn gwylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon, os gwelwch yn dda.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:57.

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**